
# Adroddiad Blynyddol

## MANTELL GWYNEDD

**2024 - 2025**




www.mantellgwynedd.com

MANTELL GWYNEDD

MANTELL GWYNEDD

*Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol*
*Supporting voluntary and community groups*

**SWYDDFA GOFRESTREDIG**
25 Y Bont Bridd
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1AB
Ffôn: 01286 672 626
**ymholiadau@mantellgwynedd.com**

**SWYDDFA ARDAL**
Yr Hen Orsaf Heddlu
Y Lawnt
Dolgellau
Gwynedd
LL40 1SB
Ffôn: 01341 422575
**dolgellau@mantellgwynedd.com**

Elusen Gofrestredig: 1068851 | Cwmni Cyfyngedig Trwy Warant: 3420271 | Cofrestrwyd yng Nghymru

*LLUN CLAWR:*
*Fel rhan o ddathliadau 40 mlynedd ers sefydlu Wythnos Gwirfoddoli rhoddodd Mantell Gwynedd gydnabyddiaeth arbennig i'r Timau Achub Mynydd. Gwirfoddolwyr yw pob aelod o'r Timau Achub Mynydd. Yn y llun mae aelod o Dîm Achub Aberglaslyn yn ystod ymarfer ar y mynydd.*

SOCIAL VALUE UK Pioneer
Cyngor Gwynedd
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Cefnogi Trydydd Sector Cymru / Third Sector Support Wales
Social Value Management Certificate 2
GIG Cymru NHS Wales Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board
Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government



# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Neges gan y Cadeirydd | 4 |
| Gweithgareddau | 5 |
| Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd | 6 - 10 |
| Gwasanaeth Cyflogres | 11 |
| Iechyd a Llesiant | 12 - 13 |
| Presgripsiwn Cymdeithasol | 14 - 15 |
| Social Value Cymru | 16 - 17 |
| Grantiau | 18 - 22 |
| Cynlluniau'r Dyfodol | 24 |
| Crynodeb Ariannol | 25 |
| Bwrdd Rheoli a Staffio | 26 |

www.mantellgwynedd.com

# Neges gan y Cadeirydd...

Wedi blwyddyn wrth y llyw fel Cadeirydd Mantell Gwynedd mae'n bleser gennyf gyflwyno yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024-25.

Fel y gwelwch o gynnwys yr Adroddiad mae wedi bod yn flwyddyn eithriadol o brysur i'r cwmni ac yn flwyddyn sydd wedi gweld cynnydd mewn staffio a hefyd mewn prosiectau a ffynonellau ariannu newydd. Mae hyn i gyd yn newyddion da i Mantell Gwynedd!

Mae'r cwmni wedi gweinyddu Cronfa Grant gwerth dros £2.1m o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ers 2023 ac fel y gwelwch yn yr Adroddiad yma mae'r rhai sydd wedi derbyn nawdd o'r Gronfa yn drawsdoriad eang o fudiadau o bob cwr o'r Sir. Mae wedi bod yn bleser o'r mwyaf cael bod yn rhan o'r Panel Grantiau oedd yn dyrannu'r arian ac mae wedi bod yn gyfle i mi, fel Cadeirydd y cwmni, i brofi safon uchel y ceisiadau ac amrediad y gwaith sy'n cael ei gyflawni gan y sector gwirfoddol a chymunedol yng Ngwynedd. Mae fy niolch i Gyngor Gwynedd am eu cydweithrediad parhaus a'u hawydd gwirioneddol i gydweithio gyda Mantell Gwynedd.

Mae'n dda gweld gwaith Social Value Cymru yn mynd o nerth i nerth a'r flwyddyn yma wedi bod yn eithriadol o amrywiol a llwyddiannus o safbwynt y contractau sydd wedi cael eu cyflawni gan y tîm. Mae'n bleser gennyf gadeirio y Fforwm Gwerth Cymdeithasol ar ran y Bwrdd Rheoli. Mae hwn yn parhau yn faes gwaith arloesol iawn ac mae'n dda gweld Mantell Gwynedd yn arwain yn genedlaethol ar rai o'r trafodaethau am fesur gwerth cymdeithasol.

Mae'r cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd hefyd yn ganolog i waith Mantell Gwynedd ac mae'n allweddol bwysig fod y Bwrdd Iechyd yn parhau i'n comisiynu i gyflawni prosiect Codi Pontydd Cadarn a hefyd y maes gwaith Presgripsiwn Cymdeithasol. Dyma ddau faes gwaith gwerthfawr a phwysig i Wynedd gyfan.

Mae gwaith Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd, sydd yn rhan o Mantell Gwynedd, yn parhau i ffynnu a thyfu. Llwyddwyd i lansio prosiect Gafael Llaw i Wirfoddoli gyda nawdd Cronfa Ffyniant Gyffredin yn ystod 2023 ac mae'r prosiect hwnnw yn parhau i annog a chefnogi gwirfoddoli ymysg unigolion sydd yn wynebu heriau personol ychwanegol. Cawsom newyddion da yn ystod yr Haf eleni fod y Loteri Cenedlaethol hefyd am gefnogi'r prosiect yma gyda dros £261k o nawdd ychwanegol er mwyn ehangu ardal ddaearyddol y prosiect. Erbyn hyn, mae prosiect newydd arall yn y Ganolfan Wirfoddoli, sef Ffrindia' Newydd, sydd yn annog gwirfoddolwyr i gyfeillio gydag unigolion er mwyn lleihau unigrwydd.

Mae'n anodd credu fod tim mor fychan (14 o staff) yn medru cyflawni cymaint mewn blwyddyn. Mae'r Adroddiad Blynyddol yma yn destament i waith caled pob aelod o staff y cwmni. Mae fy niolch yn fawr iawn i bob un ohonynt a hefyd i fy nghyd aelodau ar y Bwrdd Rheoli am eu cefnogaeth barhaus i waith y cwmni. Fodd bynnag, mae'r diolch mwyaf i'r holl fudiadau ac unigolion sydd yn rhan o'r trydydd sector yng Ngwynedd ac sydd yn gweithio'n ddiflino er mwyn eraill. Byddai Gwynedd yn sir dlawd iawn heb yr holl wirfoddolwyr a'r mudiadau sydd yn rhan mor ganolog o lesiant y Sir, felly diolch i bob un copa walltog ohonoch am wneud Gwynedd yn Sir cymaint gwell i fyw ynddi.

**Trystan Pritchard**
**(Cadeirydd y Bwrdd Rheoli)**





# Gweithgareddau

**Beth mae Mantell yn ei wneud?**

Cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol, annog unigolion i wirfoddoli a bod yn llais cryf i'r trydydd sector yng Ngwynedd yw nod Mantell Gwynedd.

Mae Mantell Gwynedd yn gwmni elusennol cofrestredig gydag aelodaeth leol sydd hefyd yn rhan o rwydwaith CTSC (Cefnogi Trydydd Sector Cymru) sef 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol a CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru) sy'n gweithredu trwy Gymru. Daw'r arian craidd i redeg y cwmni oddi wrth Llywodraeth Cymru trwy law CGGC. Mae Mantell Gwynedd yn ymgymryd â gwaith a gweithgareddau ychwanegol i hyn ond gyda'r un nod o hyrwyddo gwirfoddoli a'r trydydd sector yng Ngwynedd.

**Mae'r gweithgareddau yn cynnwys y canlynol:**

- Hyrwyddo, datblygu a chefnogi cyfleoedd gwirfoddoli
- Cynrychioli'r trydydd sector a chydweithio ar bartneriaethau strategol
- Rhoi cymorth i bobl a mudiadau i ymgysylltu'n fwy effeithiol gyda chyrff cyhoeddus
- Rhoi cefnogaeth lywodraethol i fudiadau e.e. materion cyfansoddiadol ac ariannol
- Rhoi cefnogaeth i fudiadau i fesur eu gwerth yn well, yn enwedig gwerth cymdeithasol
- Gweithredu fel linc ar gyfer cyfeirio unigolion at wasanaethau trydydd sector e.e. Presgripsiwn Cymdeithasol
- Rhoi cefnogaeth i redeg prosiectau a pheilota prosiectau ar gyfer y trydydd sector pan fo angen
- Hwyluso cyflogaeth swyddogion ar ran partneriaid
- Rheoli ffynonellau grant a rhoi cyngor ar ariannu prosiectau
- Hybu datblygiad mentrau cymdeithasol a chynaliadwyedd mudiadau
- Annog datblygiad a chyd-lynu consortia darparwyr trydydd sector
- Rhannu gwybodaeth gyda'r trydydd sector trwy'r Bwletin misol, taflenni gwybodaeth, yr wefan, cyfryngau cymdeithasol ac unrhyw ddull priodol arall
- Cynnig rhaglen hyfforddiant i gynorthwyo mudiadau a gwirfoddolwyr yn eu gwaith
- Cynnig gwasanaethau ymarferol e.e. llogi offer, llungopio, darparu ystafelloedd cyfarfod a gofod swyddfa
- Cynnig gwasanaeth cyflogres
- Annog cydweithio ar draws sectorau.

Derbyniwyd dros
**6,000**
o ymholiadau yn ystod y flwyddyn




**Aelodaeth**

Mae aelodaeth yn agored i holl fudiadau gwirfoddol Gwynedd, ac mae'r tâl ymaelodi yn **£10 y flwyddyn**.

# Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd







# Gwirfoddo

Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales

Yng Nghanolfan Gwirfoddoli Gwynedd rydym yn:

- Recriwtio gwirfoddolwyr
- Hyrwyddo gwirfodddoli
- Cefnogi gwirfoddoli
- Dathlu gwirfoddoli
- Cynghori a datblygu ymarfer da mewn gwirfoddoli

**WYTHNOS GENEDLAETHOL GWIRFODDOLI YN DATHLU PENBLWYDD 40!**


**'Roedd 40 o flynyddoedd ers lansio Wythnos Genedlaethol Gwirfoddoli yn 2024.**


Nodwyd y garreg filltir bwysig hon ym Mhortmeirion yn ystod Wythnos Gwirfoddoli . Bu i unigolion a mudiadau dderbyn cydnabyddiaeth am eu cyfraniadau arbennig er lles eraill. 'Roedd yn ddiwrnod llawn straeon ysbrydoledig ac yn deyrnged i rym gwirfoddoli.

**CYDNABYDDIAETH ARBENNIG I'R TIMAU ACHUB MYNYDD**

Rhoddwyd cydnabyddiaeth arbennig i'r Timau Achub Mynydd fel rhan o ddathliadau 40 o flynyddoedd ers sefydlu Wythnos Genedlaethol Gwirfoddoli.













**166**
ymholiad



**CYNLLUN GWIRFODDOLI GWYNEDD**

Mae'r cynllun yma yn cynnig ffordd o gydnabod cyfraniad gwirfoddolwyr trwy gofnodi eu horiau gwirfoddoli a chyflwyno tystysgrifau iddynt ar gyrraedd cerrig milltir penodol. Mae tystysgrifau 25,50,100, 200, 500 a 1,000 o oriau ar gael i wirfoddolwyr o bob oedran. Mae'r cynllun yn annog amrywiaeth o weithgarwch gwirfoddol. Cofnodwyd dros 700 o oriau gwirfoddoli gan wirfoddolwyr ifanc yn ystod y flwyddyn.








**ADEILADU CYMRU YFORY**

Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ar draws Cymru i drafod yr heriau mae gwirfoddolwyr yn eu hwynebu. Chwiliwyd am ddatrusiadau ymarferol er mwyn ymgysylltu'n well gyda gwirfoddolwyr yn ystod cyfnodau mwy heriol. Yn dilyn y digwyddiadau yma sefydlwyd y Grŵp Arweiniol Gwirfoddoli Traws Sector yng Nghymru a chanlyniad gwaith y grŵp yma oedd Gweledigaeth Gwirfoddoli newydd ar gyfer Cymru gyfan. Lansiwyd yr Weledigaeth newydd yn 2025 a bu Mantell Gwynedd yn rhan o'r grŵp traws sector. Ar hyn o bryd mae Fframwaith wedi ei datblygu a gwaith pellach yn digwydd ar Gynllun Gweithredu ar gyfer y weledigaeth.





# Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd

## GRANT GWIRFODDOLWYR IFANC GWYNEDD

Mae Mantell Gwynedd yn parhau i weinyddu Grant Gwirfoddolwyr Ifanc Gwynedd sy'n cael ei redeg gan banel o bobl ifanc rhwng 14 a 25 oed. Mae'r grant yn cael ei ddosbarthu gan y Cynghorau Gwirfoddol Sirol ar draws Cymru ac yn rhan o Gynllun Grantiau dan Arweiniad Pobl Ifanc gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi prosiectau gwirfoddoli ar draws Cymru.

Pennwyd chwe maes blaenoriaeth ar gyfer eu hariannu rhwng 2023-25 ac roedd yn rhaid i bob cais gyfarch o leiaf un o'r saith Nod Llesiant o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.




Yn 2023 recriwtiwyd 7 disgybl o Ysgol Dyffryn Nantlle fel aelodau y Panel Grant. Dau gais fu'n llwyddiannus a rhannwyd y swm o £10,000 rhwng dau fudiad sef Rheilffordd Talyllyn, Tywyn a Chwaraeon Nathan Craig gydag amnod fod yn rhaid gwario'r arian o fewn dwy flynedd.







**134**
o wirfoddolwyr wedi cofrestry ar wefan Gwirfoddoli Cymru trwy'r Ganolfan Wirfoddoli

# Gwirfoddo

## ASTUDIAETH ACHOS: Ffion Freeman

### Rheilffordd Talyllyn , Tywyn

Mae gwirfoddolwyr ifanc yn Rheilffordd Talyllyn wedi llwyddo i ddod â hanes yn ôl yn fyw drwy brosiect treftadaeth dan arweiniad pobl ifanc. Wrth wneud hynny, maent wedi meithrin sgiliau newydd, magu hyder a datblygu ymdeimlad cryf o berthyn i'r gymuned.

Mae Grŵp Aelodau Ifanc (YMG) Rheilffordd Talyllyn yn gweithredu fel rhwydwaith cefnogol i bawb rhwng 14 a 25 oed sy'n aelodau neu'n wirfoddolwyr ifanc gyda Chymdeithas Gadwraeth y Rheilffordd. Mae'r grŵp yn cynnig awyrgylch hwyliog a chroesawgar i unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwirfoddoli ar y rheilffordd, boed yn newydd neu'n rhan ohoni eisoes.

### Bywyd newydd i'r hen wagen powdwr gwn

Defnyddiodd Rheilffordd Talyllyn y cyllid i ail-greu fersiwn o'r Wagen Powdwr Gwn – y wagen olaf o'i bath a gludai ffrwydron ar hyd y rheilffordd yn y gorffennol, ond a oedd wedi mynd yn angof dros amser. Penderfynodd y grŵp ail-greu'r cerbyd hanesyddol hwn gan ddefnyddio dulliau adeiladu traddodiadol lle bo hynny'n bosibl, gyda'r nod o'i ddefnyddio i rannu hanes Chwarel Lechi Bryneglwys, un o'r safleoedd allweddol y bu'r rheilffordd yn ei gwasanaethu ers talwm.

Eglurodd Matthew, un o'r adeiladwyr allweddol a chynrychiolydd ar y pwyllgor datblygu, eu bod am greu prosiect cynhwysol lle gallai pob gwirfoddolwr gymryd rhan a chyfrannu at adfer darn gwerthfawr o hanes lleol – rhywbeth roedd yn agos at ei galon.

*"Drwy'r prosiect hwn, rwyf wedi meithrin cysylltiadau dwfn â gwirfoddolwyr eraill ac wedi gwneud ffrindiau oes, sydd wedi bod yn hwb go iawn i'm hiechyd meddwl,' meddai Matthew. 'Mae gwirfoddoli wedi rhoi ymdeimlad cryf o falchder a bodlonrwydd i mi am y cyfraniad rwyf wedi'i wneud."*

### Pobl ifanc yn arwain

Cymerodd Ffion rôl flaenllaw yn y prosiect. *"Trwy weithio ar y wagen bowdwr, rydw i wedi datblygu sgiliau mewn gwaith coed a metel, ac wedi cael cyfle i ddysgu mwy am ddiwydiant y llechi lleol wrth wneud gwaith ymchwil arno"* meddai. Wrth i'r prosiect fynd rhagddo, bu Ffion yn dysgu geiriau Cymraeg yn ymwneud â'r wagen gyda'i chyd-wirfoddolwyr, rhywbeth a gafodd ymateb brwdfrydig ac a ychwanegodd at y profiad i bawb.

Mae gwirfoddoli yn Rheilffordd Talyllyn wedi agor drysau i gyfeillgarwch newydd i Luke ac wedi rhoi profiad uniongyrchol iddo o redeg y rheilffordd. Mae'n gwirfoddoli fel glanhawr injan, gan gynorthwyo gyda thanio a chynnal y locomotifau cyn iddynt adael.

"Mae'r profiad wedi newid fy mywyd. Dwi'n llawer mwy hyderus ac yn fwy cymdeithasol nag oeddwn i o'r blaen, a dwi wedi cael cyfle i wneud ffrindiau gwych sydd yn rhannu'r un diddordebau â fi."



# Prosiect Gafael Llaw i Wirfoddoli

Dyma ail flwyddyn y prosiect yma sydd yn cael ei ariannu trwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Mae'r arian o'r Gronfa wedi galluogi Mantell Gwynedd i gyflogi Swyddog llawn amser i gefnogi uniogolion sydd angen yr hwb ychwanegol i fynd ati i wirfoddoli. Mae'r gefnogaeth 1:1 yma sy'n cael ei ddaparu gan y Swyddog Gafael Llaw yn golygu fod gan unigolion gefnogaeth bersonol er mwyn mynd ati i gychwyn gwirfoddoli.

**David o Gaernarfon**

Yn dilyn deiagnosis o salwch Parkinsons bu'n anodd i David ganfod gwaith cyflogedig ac felly dechreuodd deimlo'n ynysig yn ei fywyd bob dydd. Gyda chefnogaeth y Swyddog Gafael Llaw bu i David ddechrau gwirfoddoli gyda Banc Bwyd Arfon yn helpu darparu'r parseli bwyd.

Dywedodd Lola, Cydlynydd y Banc Bwyd *"Mae David wedi dod yn rhan bwysig o'r tîm ac mae'r Banc Bwyd yn hwb cymunedol i David ble mae yn gallu cymdeithasu gydag unigolion eraill dros baned a chawl ar ôl gorffen ei shift yn gwirfoddoli."*

*"Mae gwirfoddoli wedi fy helpu yn bersonol trwy wneud ffrindiau, cyfarfod â phobl newydd a mynd allan o'r tŷ sy'n bwysig oherwydd roeddwn yn teimlo'n unig cyn gwirfoddoli. Diolch am gyfeirio fi yno ac i'r Banc Bwyd a'r tîm yna am fy nghefnogi o wythnos i wythnos."*





**Rhiannon o Aberdaron**

Yn dioddef gorbryder roedd Rhiannon am roi cynnig ar wirfoddoli er mwyn ei helpu i ymdopi yn well gyda'i chyflwr. Cael gwirfoddoli o adref oedd nod Rhiannon ar y cychwyn ac felly canfuwyd cyfle iddi wirfoddoli dros y ffôn o adref fel rhan o wasanaeth cyfeillio Ffrind Mewn Angen, Age Cymru. Cynlluniwyd y gwasanaeth cyfeillio yn ystod cyfnod Covid ac mae wedi parhau ers hynny yn gynllun i gefnogi pobl hŷn sy'n teimlo'n unig. Mae Rhiannon yn parhau i wirfoddoli'n wythnosol gyda'r cynllun ac mae'r gwirfoddoli yn rhoi hwb personol iddi gan helpu rhywun arall yr un pryd.

*"Mae gwirfoddoli wedi newid fy mywyd, mae yn rhywbeth i mi wneud o wythnos i wythnos ac mae wedi helpu fy iechyd meddwl trwy roi pwrpas i mi. Fyddai yn edrych ymlaen at bob bore Dydd Mawrth yn rheolaidd lle fyddai yn sgwrsio gyda fy nghyfaill ar y ffôn. Mae gwirfoddoli yn y rôl hon yn golygu'r byd i mi."*

Ers cychwyn y prosiect yn Ionawr 2024 mae

**149**

o unigolion wedi cael cefnogaeth ac wedi mynd ati i wirfoddoli o ganlyniad



# Gwasanaeth Cyflogres Mantell Gwynedd

Mae Mantell Gwynedd yn darparu gwasanaeth cyflogres ar gyfer mudiadau trydydd sector yng Ngwynedd ers blynyddoedd maith.

Gall materion ariannol a chyflogaeth fod yn gymhleth i fudiadau bychan sydd yn aml yn dibynnu ar wirfoddolwyr.

Mae'r gwasanaeth cyflogres yn rhoi sicrwydd i fudiadau fod y taliadau a wneir yn rhai cywir a bod y gweithdrefnau iawn yn cael eu dilyn. Mae'n golygu hefyd fod na rhywun ochor arall i'r ffôn i gynnig cymorth a chefnogaeth fel bo angen. Yn y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig gyda newidiadau i gofynion a hawliau pensiwn, mae'r gwasanaeth yn fwy gwerthfawr nag erioed i fudiadau bychain.

Dyma sydd gan rai o'r mudiadau i ddweud am y gwasanaeth cyflogres maent wedi ei dderbyn:

**Bethan, Cylch Meithrin Dyffryn yr Enfys**

*"Mae'r gwasanaeth paratoi cyflogau wedi bod o fudd mawr i'r mudiad.*

*Mae'r gwaith papur yn cael ei ddarparu yn brydlon ac yn gywir, ac mae'r gwasanaeth yn golygu bod llawer llai o faich ar aelodau gwirfoddol y pwyllgor."*

**Heather, Clerc Cyngor Tref Abermaw**

*"Mae'r gwasanaeth cyflogres sy'n cael ei ddarparu gan Mantell Gwynedd o gymorth mawr i ni ac yn hanfodol wrth sicrhau rheolaeth esmwyth Cyngor Tref Abermaw. Ni fyddem yn medru ymdopi heb y gwasanaeth yma."*

**Sioned, Pum Plwy Penllyn**

*"Mae'r gwasanaeth cyflogau a ddarperir gan Mantell Gwynedd wedi bod o fudd sylweddol i ni dros y blynyddoedd. Mae'r gefnogaeth a geir gan Mantell yn sicrhau cywirdeb wrth ddelio gyda chyflogau staff ac yn rhoi tawelwch meddwl i'r cwmni o ran cydymffurfiaeth a chefnogaeth broffesiynol. Mae hyn yn rhoi yr amser i ni fedru canolbwyntio ar ein gwaith craidd ac yn lleihau y baich gweinyddol arnom."*

**Aimee, Ysgol Ein Harglwyddes**

*"Rydym yn ddiolchgar i'r gwasanaeth am eu cymorth a'r gefnogaeth wrth i ni reoli ein cyflogres.*

*Mae staff Mantell Gwynedd bob amser ar gael i gynnig cyngor a bob amser yn ymateb yn brydlon i ymholiadau."*

# Iechyd a Llesiant

Mae prosiect Codi Pontydd Cadarn yn cael ei ariannu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yn galluogi Mantell Gwynedd i gyflogi Hwylusydd Iechyd a Llesiant llawn amser.

Mae'r swydd yn sicrhau pont rhwng y gwasanaeth iechyd a'r mudiadau trydydd sector sydd yn darparu gwasanaethau yn y maes iechyd a llesiant.

Mae'r Hwylusydd yn:

- Hwyluso cyfarfodydd a chefnogi fforymau a gweithdai
- Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i ddylanwadu
- Sicrhau perpectif mudiadau trydydd sector mewn cyfarfodydd partneriaeth a digwyddiadau eraill
- Cynnal cyfres o rwydweithiau trwy'r flwyddyn

Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd Rhwydwaith Llesiant a Gwirfoddoli yn ystod 2024 – 25.








Eleni dyma'r themâu yn y cyfarfodydd drefnwyd gan neu ar y cyd gyda'r Hwylusydd:

- Digwyddiad Rhanbarthol ' Iechyd a Gofal Cymdeithasol Gogledd Cymru' gan Hwyluswyr Gogledd Cymru (16.05,24)
- Teithio Llesol ( 14.05.24)
- Digwyddiad Spid-detio rhyngweithiol (05.06.24)
- Digwyddiad ymgysylltu IECHYD DA'R HA' 24 am y tro cyntaf, Gogledd Gwynedd (27.06.24)
- Heriau Recriwtio Gwirfoddolwyr (19.09.24)
- *Digwyddiad IECHYD DA yn Nolgellau (12.10.24)
- Grantiau a Chyllid – Cwrdd â'r Cyllidwyr (23.10.24)
- Gweithdy DBS (20.11.24)
- Dathliad Nadolig ar thema Llesiant gan Hwyluswyr Gogledd Cymru (03.12.24)
- Cynhadledd Diwrnod Cenedlaethol Menywod gan Hwyluswyr G Cymru mewn partneriaeth gyda BIPBC yn Y Rhyl (04.03.25)
- Digwyddiad Dydd Cenedlaethol Prescripsiwn Cymdeithasol gan Hwyluswyr G Cymru mewn partneriaeth gyda BIPGC yn Ewloe (31.03.25)

Ymgysylltwyd gyda thros 150 o fudiadau yn ystod y cyfnod dan sylw.



*"Mae iechyd a lles yn fater hynod bwysig ym mhob man, ac yn arbennig felly yn rhywle fel Caernarfon sydd efo pocedi sylweddol o dlodi ac amddifadedd.... Mae'n bwysig ein bod ni'n edrych ar ôl ein hiechyd a'n lles ein hunain, a'n gilydd. Mae'r digwyddiad yma yn cynnig y modd a'r wybodaeth i ni wneud hynny yn fwy effeithiol."*
**Cyng. Olaf Cai Larsen**
**Digwyddiad Iechyd Da, Caernarfon**

**232** trwy'r drws

**DIGWYDDIAD IECHYD DA'R HA'**
**Mehefin 2024**

Mae Mantell Gwynedd yn cynnal digwyddiad IECHYD DA ers bron i ugain mlynedd yn Nolgellau bob mis Hydref . Mae'n ddigwyddiad hynod llwyddiannus ac yn gyfle gwerthfawr i'r Trydydd Sector a phartneriaid ym myd Iechyd a Llesiant ddod at ei gilydd i rwydweithio ac ymgysylltu gyda'r boblogaeth leol yn Ne Gwynedd. Penderfynwyd ehangu'r ddarpariaeth a chynnal digwyddiad IECHYD DA'R HA' am y tro cyntaf yng Ngogledd Gwynedd yn Neuadd y Farchnad, Caernarfon ar 27ain o Fehefin 2024 fel rhan o Wythnos Lles y Byd.



Roedd **24** stondin gan fudiadau Gwynedd a'n partneriaid

**DIGWYDDIAD IECHYD DA**
**Hydref 2024**

Diolch i Liz Saville Roberts AS am agor IECHYD DA 24 yn Nolgellau. Soniodd am y cyfraniad aruthrol mae'r Trydydd Sector yn ei wneud i gefnogi, cynnal a gwella iechyd a llesiant ymysg trwch y boblogaeth leol. Pwysleisiodd hefyd yr angen i bob un ohonom fod yn fwy ymwybodol o, a pharhau i ddysgu am, ddulliau i wella ansawdd ein hiechyd a'n lles. Rhan bwysig o'n llwybr ni i lesiant ydi darganfod beth sy'n ein helpu ni i ymlacio, sut i gael gwared o straen a'n cael ni i symud mwy.

Roedd **34** stondin gan fudiadau Gwynedd a'n partneriaid



**238** trwy'r drws

"

**ADBORTH GAN STONDINWYR**

**Beth oedd y peth gorau i chi fel mudiadau?**

*"Amser i gyfarfod a sgwrsio"*
**Barnardo's**

*"...pobl ifanc yn ymgysylltu gydag mudiadau, ac eisiau cyfrannu – gwych gweld hyn!"*
**Marie Curie**

*" Digwyddiad gwych a threfnus iawn. Da cael cyfle i ymgysylltu gyda elusennau eraill o fewn y sector.... da teimlo fel rhan o'r llun mawr o fewn ein cymunedau"*
**Cymdeithas Eryri**

*"wedi enjoio gwneud massages pen"*

*" y freebies!" " gwybodaeth da ar y stondina"*

*"roedd yn ddiwrnod da a cyfle i ffeindio allan mwy"*

**Myfyrwyr Coleg Llandrillo Menai a disgyblion Ysgol y Gader**

*" Ehangodd fy ngwybodaeth am yr hyn sydd ar gael wrth fynd yn hŷn"*

*"Byswn i'n hoffi gweld gwasanaethau fatha meddygfeydd yn bod yn rhan o hwn"*

*" byswn i'n hoffi gweld mwy o bobl yr ardal yn troi fewn"*

**Sylwadau gan y Cyhoedd**

"

# Presgripsiwn Cymdeithasol

Mae presgripsiwn cymdeithasol yn galluogi meddygon teulu, nyrsus a gweithwyr proffesiynol eraill yn y maes gofal sylfaenol i gyfeirio unigolion at amryw o wasanaethau lleol sydd ddim yn wasanaethau clinigol. Mae hefyd yn chwarae rhan allweddol yn yr agenda ataliol e.e. codi ymwybyddiaeth am sgrinio, atal codymau a hybu cyrsiau iechyd a lles.

Dull sydd yn mynd i'r afael ag anghenion unigolion mewn modd mwy holistig ydyw a'u hannog i gael gwell gafael ar eu llesiant a'u hiechyd eu hunain. Mae gweithgareddau Presgripsiwn Cymdeithasol yn gallu bod yn amrywiaeth enfawr o bethau ond, ar y cyfan, gweithgareddau ydynt sydd yn cael eu darparu gan fudiadau cymunedol a gwirfoddol.

Mae sawl model gwahanol o Bresgripsiwn Cymdeithasol ond mae'r rhan fwyaf yn fodelau yn cynnwys Swyddog Cyswllt Cymunedol sy'n derbyn cyfeiriadau ac wedyn yn gweithio gyda'r unigolion i adnabod cyfleoedd addas ar eu cyfer. Mae Mantell Gwynedd mewn lle unigryw i ddarparu gwasanaeth Presgripsiwn Cymdeithasol gan ein bod yn gorff ymbarél trydydd sector gyda chronfa ddata enfawr o fudiadau, a gan nad ydym yn darparu gwasanaeth rheng flaen ein hunain nid oes unrhyw wrthdaro wrth i ni gyfeirio unigolion at wasanaethau.

Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**CYSWLLT CYMUNEDOL ARFON: CYFEIRIADAU O 1AF EBRILL 2024 - 31AIN O FAWRTH 2025**

**Rôl y Swyddog Cyswllt Cymunedol yw:**

- Grymuso unigolion i ail gysylltu gyda'u cymunedau lleol
- Magu hyder a gwydnwch
- Gwella Iechyd a Lles
- Gwella ansawdd bywyd yr unigolion
- Lleihau nifer o apwyntiadau meddygol a'r defnydd o feddyginiaeth
- Cynyddu'r ymwybyddiaeth o beth sydd ar gael i gefnogi a chynorthwyo unigolion
- Lleihau unigrwydd
- Cynorthwyo unigolion i gymryd gwell rheolaeth o'u bywydau

**Ers i'r prosiect gychwyn ym 2016 mae 2,005 o unigolion wedi eu cefnogi trwy'r prosiect. Yn ystod 2024-25 mae 233 o unigolion wedi eu cefnogi.**




**ASTUDIAETH ACHOS: Mrs K**

Meddyg Teulu ddaeth i gyswllt gyda'r Swyddog Cymunedol yn gofyn am gymorth ar gyfer Mrs K hefo materion corfforol, meddyliol, budd-daliadau, costau byw ac unigrwydd.

Trefnodd y Swyddog Cymunedol i gyfarfod gyda Mrs K er mwyn dod i'w hadnabod yn well a chael sgwrs am pa fath o gymorth fyddai yn ei helpu a pha faterion fyddai yn bosib eu datrys.
Yn ystod y sgwrs eglurodd Mrs K ei bod yn byw gyda chyflyrrau megis sgil effeithiau covid ac ME. Daeth i'r amlwg fod effeithiau'r ddau salwch yma yn peri gofid sylweddol i Mrs K gan achosi isleder drwg iddi, poen corfforol, teimladau o rwystredigaeth a methu ymdopi gyda gwaith na heriau dydd i dydd. Roedd yr holl bethau hyn wedi peri iddi dorri perthynas gyda'i chymar ers dros ugain mlynedd. Yn waethaf oll 'roedd Mrs K yn cael teimladau am hunan laddiad.

Gyda dirywiad yn ei symudedd a'i gallu i ymdopi, roedd Mrs K wedi gorfod rhoi'r gorau i'w gwaith a hyn wedi cael effaith sylweddol arni yn feddyliol ac yn ariannol.

Yn dilyn y sgwrs gyda'r Swyddog Cymunedol:

- Cyfeiriwyd Mrs K at Gyngor ar Bopeth er mwyn helpu llenwi ffurflenni a chael cyngor cyfreithiol
- Cyfeiriwyd Mrs K at I CAN er mwyn iddi dderbyn cefnogaeth emosiynol a meddyliol
- Cysylltwyd gyda Gofal a Thrwsio er mwyn gwneud y cartref mor ddiogel â phosib
- Cafwyd gwybodaeth a chysylltiadau ar gyfer asesiad cadair olwyn
- Derbyniwyd cyfeiriad asesiad symudedd ar gyfer cymorthyddion cerdded
- Trefnwyd bod Mrs K yn cael ei rhestru fel unigolyn angen blaenoriaeth gyda chwmniau iwtiliti a llenwyd ffurflen ar gyfer mesurydd dwr

Yn ogystal â'r uchod rhoddwyd Pecyn Gwybodaeth at ei gilydd i Mrs K gyda:

- Manylion am help llaw ymarferol ar gael yn lleol
- Manylion am gymorth tanwydd a thalebau bwyd
- Rhestr o weithgareddau yn yr ardal fyddai yn helpu gyda'i symudedd
- Gwybodaeth am sesiynau llesiant oedd yn cael eu cynnal yn yr ardal
- Teclynnau pwrpasol i helpu gyda thasgau o ddydd i ddydd

O ganlyniad i'r gefnogaeth yma gan y Swyddog Cymunedol mae Mrs K mewn sefyllfa llawer iawn gwell. Bu Cyngor ar Bopeth yn gymorth mawr i ddatrys ei sefyllfa gwaith ac adref. Cafodd ganllawiau eu gosod yn y tŷ gan Gofal a Thrwsio er mwyn helpu gyda symud o gwmpas yn ddiogel a chadw ei hannibynniaeth. Bu ICAN yn gefnogol gyda'i heriau iechyd meddwl a chafodd declyn pwrpasol i'w helpu i gerdded. Yn dilyn gosod mesurydd dwr hanerodd ei biliau dŵr. Mae Mrs K bellach yn mynd i ddosbarth ioga lleol i helpu gyda symudedd ac mae ganddi gymorth yn y tŷ i lanhau a chadw trefn. Mae hi hefyd wedi dweud ei bod yn awyddus i ddechrau gwirfoddoli rwan.

*"Dwi mor ddiolchgar a dwi wedi cael gymaint o ryddhad yn dilyn eich ymweliad cyntaf ataf. Mi wnaethoch chi gael y gefnogaeth oeddwn wir ei angen er mwyn fy helpu i droi pethau rownd. Diolch"*
**Mrs K**



# Social Value Cymru

Ers 2016 mae Mantell Gwynedd wedi bod yn cyflawni gwaith arloesol yn y maes o fesur gwerth cymdeithasol.

Bellach mae 4 aelod staff yn gweithio i'r prosiect, pob un wedi cymhwyso gyda Social Value UK fel ymarferwyr wedi eu achredu. Yn ystod 2024 –25 gweithiodd tîm Social Value Cymru gyda mudiadau ar hyd Cymru i ddarparu gwasanaeth hyfforddiant a mentora, gwerthusiadau llawn a sefydlu fframwaith mesur.

Bu i 90% o'r mudiadau y buom yn gweithio gyda hwy ymateb i'n harolwg er mwyn ein helpu i adnabod effaith ein gwaith.

**Deilliannau**

- **77%** wedi gwella sgiliau i fesur gwerth cymdeithasol
- **89%** Yn fwy hyderus yn y maes gwerth cymdeithasol
- **100%** yn medru dangos eu heffaith yn well i gynulleidfa fewnol
- **88%** yn medru dangos eu heffaith yn well i gynulleidfa allanol
- **66%** gyda gwell cyfleoedd ariannu
- **66%** yn dweud bod y data yn helpu iddynt wneud penderfyniadau gwell












**ASTUDIAETH ACHOS 1:**
**Cwmni Theatr Frân Wen**

Mae Frân Wen yn gwmni theatr proffesiynol sy'n gweithredu fel elusen gofrestredig wedi ei lleoli yng Ngogledd Orllewin Cymru. Mae yn cydweithio gyda chymunedau, artistiaid a phobl ifanc.

Cafodd Cwmni Frân Wen arian i ddatblygu prosiect OLION sef prosiect aml-gelfyddydol wedi ei anelu at bobl ifanc a thrigolion y gymuned leol ym Mangor ac yn hyrwyddo pŵer y celfyddydau a chreadigrwydd fel ffordd i ddathlu a dod â chymunedau ac unigolion amrywiol ynghyd.

Roedd y cwmni yn awyddus i werthuso a dangos gwerth y prosiect yma a phenderfynwyd cydweithio gyda thîm gwerth cymdeithasol Mantell Gwynedd er mwyn datblygu sgiliau yn y maes yma a pharatoi gwerthusiad llawn.

*"Roedd y cymorth a'r hyfforddiant o dan ofal medrus Mantell Gwynedd yn brofiad hollol amrhisiadwy, ac mae wedi bod yn gyfle i ni edrych ar sut i wreiddio egwyddorion gwerth cymdeithasol trwy ein gweithgarwch. Mae'r cydweithio hynaws a thrylwyr wedi'n rhoi ni mewn sefyllfa gref lle gallwn ni fynd ati'n hyderus i lunio adroddiadau ein hunain nid yn unig er mwyn parhau i werthuso penderfyniadau mewnol ond hefyd er mwyn sicrhau adnodd a thystiolaeth fydd yn cefnogi ceisiadau grant prosiectau cymunedol a chreadigol tebyg eto yn y dyfodol."*
**Elgan Rhys, Pennaeth Ymgysylltu**
**Cwmni Fran Wen**





**ASTUDIAETH ACHOS 2:**
**Hwb Amlddiwylliannol Gogledd Ddwyrain Cymru**

Fel rhan o Gronfa Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon Cymru Wrth-hiliol, cafodd Tŷ Pawb, Cymuned Cydlyniad Gogledd Ddwyrain Cymru (WCBC) mewn partneriaeth â Race Council Cymru, £240,000 dros gyfnod o dair blynedd. Pwrpas y cyllid oedd cefnogi sefydlu HWB Amlddiwylliannol Gogledd Ddwyrain Cymru sydd wedi'i leoli yn Tŷ Pawb.

Comisiynwyd tîm Social Value Cymru i werthuso'r prosiect gydag adroddiad interim yn Rhagfyr 2023 ac yna gwerthusiad llawn yn Rhagfyr 2024.

Dangosodd y gwaith o fesur gwerth cymdeithasol fod £3.06 wedi ei greu am bob £1 a fuddsoddwyd.

*"Mae Hwb aml-ddiwylliannol Gogledd Ddwyrain Cymru yn cydnabod rôl allweddol gwirfoddoli …. ac mae gweithio efo Social Value Cymru wedi galluogi dealltwriaeth gynhwysfawr o'r effaith gymdeithasol sy'n cael ei greu gan dros 20 o grwpiau cymunedol sydd yn gysylltiedig hefo'r Hwb.*

*Yn ychwanegol at hyn mae gweithio hefo Social Value Cymru wedi cryfhau yn sylweddol gallu'r Hwb i gasglu tystiolaeth gadarn er mwyn arddangos gwerth. Mae hyn yn ei dro yn gwella cyfleoedd ariannu yn ogystal â meithrin perthynas well gydag amrywiaeth o randdeiliaid."*
**Emily Reddy, Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol Gogledd Ddwyrain Cymru**

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# Grantiau










**CRONFA SECTOR WIRFODDOL...**

**Y mudiadau fu'n llwyddiannus**

## ARFON

**Seindorf Arian Dyffryn Nantlle**
**£120,350**
Adnewyddu adeilad Cwt Band y Seindorf yn Nhalysarn gan gynnwys trin pydredd sych, gosod lloriau newydd, system wresogi ac awyru newydd, plastro, ail-weirio, cegin newydd a gosod paneli solar.

*"Heb gwt, dim hanes, heb hanes, dim dyfodol - bandio'n mlaen hefo'n gilydd".*

**Sistema Cymru - Codi'r To**
**£22,639**
Datblygu cyfleoedd tiwtora offerynnau pres yn ardal Arfon i blant a phobl ifanc.

*"Nes i fwynhau pryd oedd y ni ar y drwm oherwydd bod y ni gyd efo ei gilydd pan o ni ar y drwm, roedd yn lot o hwyl cael dysgu yr offerynau taro"*
Disgybl Ysgol Gynradd

**Neuadd Bentref Rhiwlas**
**£40,995**
Gosod paneli solar a batris yn y neuadd er mwyn lleihau costau ynni a gweithio tuag at fod yn net sero fel Neuadd.

*"Mae'r grant ar gyfer paneli solar wedi gwneud Neuadd Bentref Rhiwlas yn wirioneddol gynaliadwy, o ran carbon a hefyd yn ariannol."*

**Banc Bwyd Arfon, Caernarfon**
**£17,334**
Penodi Swyddog Cydlynu Gwirfoddolwyr i recriwtio a chefnogi mwy o wirfoddolwyr.

*"Mae cael y Grant gan yr SPF wedi'n galluogi i recriwtio rhagor o wirfoddolwyr yn y Banc Bwyd, ac rydyn ni wedi gallu cefnogi, a chael cefnogaeth gan, dim arbennig o fwy nag 84 o wirfoddolwyr. Mae hynny wedi'n galluogi ni i roi bwyd a chyngor i fwy na 300 o deuluoedd ac unigolion mewn argyfwng tlodi."*

**Community Arts Project, Bangor**
**£7,125**
Creu arddangosfa gelf yn Pontio, Bangor.

*"Mae cyfansoddi cerddoriaeth eto, ar ôl sawl blwyddyn o iechyd meddwl gwael, wedi rhoi'r cyfle i mi seinio fy llais fy hun a magu hyder. Edrychaf ymlaen yn awr at fynd â'r Prosiect i gynulleidfa ehangach fyth. Gobeithiwn wneud hyn trwy 'siopau chwarae' lle mae artistiaid (a rhai nad ydynt yn artistiaid) yn cydweithio'n greadigol i Swnio Eich Llais -Be Heard - Re-Connect - ADFER!"*

**Neuadd y Pentref Carmel**
**£11,250**
Gosod paneli solar ar y Neuadd.

*"Yn dilyn derbyn grant i osod paneli solar ar do'r Neuadd, mae'r pwyllgor wedi gweld gostyngiad yng nghostau rhedeg y neuadd. Rydym yn rhagweld y byddwn yn arbed tua £500 y flwyddyn. Mae'r arbediad hwn yn ein costau yn ein galluogi i gadw prisiau llogi'r Neuadd heb orfod cynyddu gyda chwyddiant, ac mae hyn wedi rhoi rhywfaint o sicrwydd ariannol i'r Cylch Meithrin."*

**Tŷ Elidir, Deiniolen**
**£10,000**
Gosod system wresogi newydd yn Nhŷ Elidir, Deiniolen.

*"Mae darparu gwresogyddion yn ein hadeilad, Tŷ Elidir Deiniolen, wedi gwneud gwahaniaeth mawr gyda'r ystafelloedd yn llawer mwy clyd"*

**Neuadd Ogwen, Bethesda**
**£24,430**
Darparu gweithgareddau a chyfleoedd i blant a phobl ifanc ynghyd â chwblhau addasiadau i'r ymolchfa a'r lifft.

*"Mae'r gefnogaeth ariannol wedi galluogi Neuadd Ogwen i wella ein cyfleusterau a gwneud ein canolfan yn fwy hygyrch. Mae hefyd wedi galluogi tanio gweithgaredd megis clwb drama, dawns ac ysgol roc yn dilyn Cofid-19. O ganlyniad i'r gefnogaeth mae'r gweithgareddau yma yn parhau ac yn ffynnu."*

**Neuadd Goffa Llanllyfni**
**£21,250**
Gosod paneli solar, cwblhau addasiadau mewnol a gosod cegin newydd.

*"Diolch i griw Mantell Gwynedd am y cyngor a'r arweiniad gawson ni fel pwyllgor wrth drio am grant i wella'r Neuadd. Erbyn hyn mae na gegin newydd sbon yma, ac mae'n edrych yn wych! Pawb yn brolio! Wedi codi calon y pwyllgor hefyd - diolch o galon!"*

**Neuadd Bentref Y Groeslon**
**£11,910**
Gosod llawr newydd a pheintio'r neuadd.

*"Llwyddodd Neuadd Bentref Y Groeslon i sicrhau arian grant ar gyfer prosiect i ail wynebu llawr a pheintio'r Neuadd. Mae hyn wedi cael effaith bositif iawn ar ddefnyddwyr y neuadd."*

**Caban Cynfi, Deiniolen**
**£79,872**
Creu canolfan gymunedol aml-bwrpas o'r enw Caban Cynfi.

*"Mae gallu gwireddu'r freuddwyd o greu canolfan aml-bwrpas Caban Cynfi yn gwbl amhrisiadwy. Mewn cymuned lle mae adnoddau yn brin bydd Caban Cynfi yn cynnig lloches, cynhaliaeth a chyfleoedd dirifedi i drigolion ardal Deiniolen a'r cylch."*

**Canolfan Tregarth**
**£7,442**
Gosod ffenestri a phrynu cadeiriau newydd yn y ganolfan.

*"Mae derbyn grant wedi bod yn drobwynt i Ganolfan Tregarth. Heb y cymorth ariannol allweddol hwn, ar gyfer gwelliannau hanfodol, byddai Canolfan Tregarth mewn sefyllfa llawer gwannach ar gyfer darparu'r adnodd gwerthfawr hwn i bobl Tregarth a'r fro."*


**Seindorf Arian Deiniolen**
**£6,950**
Datblygu prosiect tiwtora i blant a phobl ifanc Deiniolen a'r cylch.

*"Mae'r gwersi 'Band i Bawb' wedi bod o fudd mawr i'r unigolion sydd wedi cymryd rhan. Cawsom gyfanswm o 9 unigolyn yn penderfynu cymryd gwersi, ac maent i gyd wedi bod yn falch iawn o'r cyfle, wedi mwynhau'r gwersi yn fawr, ac wedi penderfynu parhau i chwarae. Byddant i gyd yn symud ymlaen i'r Band Cymunedol sydd gennym yma fel sefydliad."*

**Canolfan Gymdeithasol Talysarn**
**£9,966**
Grant i osod paneli solar a batris.

*"Mae cael y grant wedi ein galluogi i ni gael paneli solar a batri wedi rhoi hwb i ni fel pwyllgor. Rydym wedi cael tawelwch meddwl ar gyfnod gweddol ansicr gyda chostau ynni yn mynd i fyny yn aruthrol. Rydym hefyd yn gallu edrych ar gefnogi mwy o grwpiau sydd yn trefnu gweithgareddau yn Y Ganolfan, gan gadw costau llogi'n sefydlog ac yn fforddiadwy."*






# DWYFOR

**Neuadd Goffa Penmorfa a'r Cylch**
**£97,900**
Adnewyddu'r ganolfan yn cynnwys ail-doi, lloriau newydd, peintio, gwaith trydanol a gwella cyfleusterau snwcer y Neuadd.

*"Mae'r gefnogaeth ariannol wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i ni yn y pentref gan sicrhau fod y Neuadd yn gallu parhau i gynnig ystod o weithgareddau i drigolion Penmorfa a'r cylch. Heb y cymorth ariannol hwn roedd yn debygol y byddai wedi bod yn rhaid cau y neuadd. Mae'r neuadd bellach yn fwy effeithlon o ran defnydd o ynni ac mae'r cyfleusterau wedi eu huwchraddio yn sylweddol ac mae'n braf gweld y Neuadd yn cael defnydd unwaith eto yn arbennig gan bobl ifanc y pentref."*

**Clwb Rygbi Pwllheli**
**£27,070**
Gosod goleuadau LED ar gaeau'r clwb.

*"Mae'n sicr bydd y prosiect gosod goleuadau LED o fudd mawr i'r gymdeithas leol. Mae yn hanfodol bwysig i'r Clwb sicrhau fod ein plant a'n pobl ifanc yn cael yr adnoddau gorau posib i ddatblygu eu sgiliau. Bydd y system newydd yn gaffaeliad mawr i chwaraewyr rygbi o bob oedran ym Mhen Llŷn."*





**Ynni Llŷn**
**£35,317**
Penodi Cynghorydd Ynni i ddarparu archwiliadau ynni yn y cartref a chyngor budd-daliadau wedi'u teilwra i anghenion penodol trigolion lleol.

*"Mae'r grant wedi ein galluogi i recriwtio aelod o staff i'n Prosiect Gwres a Lles a'u hyfforddi i allu darparu cyngor budd-daliadau ac ynni. Mae hwn yn wasanaeth gwerthfawr ac rydym wedi cysylltu â phobl yn y gymuned sy'n agored i niwed, ac yn parhau i gysylltu â nhw, i'w helpu i gael gafael ar y budd-daliadau y maen nhw'n gymwys i'w cael, a hefyd eu helpu i ddefnyddio ynni mewn modd mor effeithlon â phosib yn eu cartrefi."*

**Hafod Ceiri, Llithfaen**
**£98,795**
Addasu'r capel fel caffi.

*"Mae'r grant wedi sicrhau adnoddau sef cegin, toiledau, gwres a golau mewn adeilad newydd sy'n gweithredu fel caffi ar gyfer y gymuned ac ymwelwyr â'r ardal. Diolch i'r grant, mae gennym sylfaen gref ar gyfer gwireddu breuddwyd ehangach y prosiect."*

**Cymdeithas Chwaraeon Bro Eifl**
**£80,000**
Gosod offer ar gyfer cae chwarae newydd gydag offer cyfoes a hygyrch, a ffens i'w wahanu o'r cae chwarae mawr.

*"Mae'r grant wedi ein galluogi i adnewyddu y parc chwarae yn y pentref i gyd-fynd efo dymuniadau'r gymuned. Mae'r parc ar ei newydd wedd yn adnodd cyfoes a diogel i blant yr ardal ymgynnull a chwarae yn yr awyr iach."*





**Cae Chwarae Rhydyclafdy**
**£86,445**
Datblygu cae chwarae newydd i'r pentref.

"Mae'r prosiect yma wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i gymuned Rhydyclafdy. Mae mor braf fod gan y plant le diogel i chwarae a bod teuluoedd yn gallu mwynhau treulio amser yn yr awyr agored."


**Canolfan Adloniant Aberdaron**
**£20,154**
Gwella adnoddau a datblygu'r Ganolfan gan gynnwys peintio, boiler newydd a gwella'r stafell snwcer.

*"Mae'r arian a dderbyniwyd wedi gwneud gwahaniaeth i Ganolfan Adloniant Aberdaron, trwy gael uwchraddio gwaith trydanol, plymio, peintio a thacluso fel arall! Rydym fel pwyllgor yn hynod ddiolchgar a gobeithio bydd pobl yr ardal yn cael defnydd o'r Ganolfan yn y dyfodol!"*

# MEIRIONNYDD

**Oasis Nursery, Abermaw**
**£2460**
Datblygu ysgol goedwig gyda'r plant yn mynychu'r ardd gymunedol yn y Abermaw.

*"Mae wedi darparu cyfleoedd dysgu amhrisiadwy i'n plant. Mae wedi meithrin ynddynt gariad tuag at yr awyr agored, eu hamgylchedd a'r broses o edrych ar ôl ein hamgylchedd naturiol, a thyfu ffrwythau a llysiau ein hunain. Gyda'r grant yma rydym wedi gwir fedru rhoi sgiliau a gwybodaeth amhrisiadwy i'n plant ifanc."*






**Cyngor Cymuned Dyffryn Ardudwy a Thalybont**
**£26,060**
Gosod offer cae chwarae ar gyfer y gymuned gan gynnwys zipwire er mwyn cynyddu cyfleoedd chwarae i blant o bob oedran.

*"Mae'r grant wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r cae chwarae gan fod mwy o blant y pentref yn ei ddefnyddio gan gynnwys rhai o ardaloedd cyfagos."*

**Friends of Wern Mynach, Abermaw**
**£2,487**
Gosod system casglu dŵr glaw yn yr ardd gymunedol yn Abermaw.

"Prosiect gwych i fod yn rhan ohono, ac mae'n braf gweld yr holl wahanol bobl yn mwynhau ac yn cymryd rhan."

**Clwb Rygbi Dolgellau**
**£47,475**
Gosod goleuadau LED i'r caeau/adeilad y clwb ynghyd â ffenestri newydd.

*"Mae'r chwaraewyr sy'n defnyddio'r llifoleuadau wedi sylwi ar y gwelliant mae'r goleuadau'n ei wneud ar gyfer gemau a hyfforddiant. Rydym hefyd wedi elwa o ffenestri newydd drwy'r adeilad, a dodrefn newydd yn yr ystafell gyfarfod. Mae'r grwpiau sy'n defnyddio'r cyfleusterau i gyd wedi sylwi faint cynhesach a chroesawgar yw'r adeilad, ac rydym wedi gweld cynnydd yn y defnydd ohono."*





**Y Capel Bach, Trawsfynydd**
**£129,304**
Adnewyddu'r Capel Bach yn Nhrawsfynydd yn cynnwys ail-doi, ffenestri newydd, ail-blastro, system gwresogi, pwmp gwres o'r aer a chegin newydd.

*"Mae'r grant wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'n grŵp. Roedd ein hadeilad yn hen, yn ddrud i'w redeg ac yn straen ar ein hadnoddau. Mae'r cyllid wedi ein galluogi i insiwleiddio'r adeilad a'i wneud yn llawer mwy effeithlon o ran ynni. Mae'r adeilad bellach yn ofod ecogyfeillgar, dymunol a chyfforddus ar gyfer pob un o'r grwpiau cymunedol sydd yn ei ddefnyddio."*

**Neuadd y Pentre, Bontddu**
**£83,540**
Adnewyddu'r ganolfan yn cynnwys ffenestri, system wresogi a chegin newydd.

*"Mae'r grant wedi bod yn achubiaeth i adeilad Neuadd y Pentre, ac i'r gymuned leol yn y Bontddu. Mae'r pentref wedi colli'i dafarn, ei ysgol a'i siop leol, felly'r Neuadd yw'r unig adeilad cymunedol sydd ar gael i ni. Mae'r gwaith ailwampio wedi rhoi balchder o'r newydd yn eu cymuned i drigolion, ynghyd â brwdfrydedd dros ddigwyddiadau cymunedol."*

**Canolfan Gymdeithasol Bro Ffestiniog**
**£123,030**
Adnewyddu'r ganolfan drwy osod ffenestri, drysau a system wresogi newydd.

*"Mae derbyn y grant Ffyniant Gyffredin drwy Mantell Gwynedd wedi bod yn newid anhygoel i'r Ganolfan Gymdeithasol ym Mlaenau Ffestiniog. Cawsom ffenestri a boiler newydd drwy'r adeilad ac mae wedi gwneud gwahaniaeth mawr i ni a phellach yn adeilad llawer mwy cynnes a chartrefol. Yn dilyn y gwaith rydym yn cael dipyn mwy o defnydd gan grwpiau a thrigolion yr ardal a rwan yn cynnig croeso cynnes i bawb!"*



**Canolfan Cymuned Y Parc**
**£15,417**
Comisiynu astudiaeth dichonoldeb a datblygu cynlluniau ar gyfer uwchraddio'r Ganolfan.

*"Mae'r Grant wedi'n galluogi i symud ymlaen efo'n cynllun datblygu manwl ar gyfer y dyfodol i ddatblygu ac uwchraddio cyfleusterau'r Ganolfan sef hen Ysgol Gymuned y Parc. Ein gobaith yn awr yw medru symud ymlaen i geisio grant llawn ar gyfer gwireddu'r cynlluniau hyn."*

**Eglwys Bedyddwyr Tywyn**
**£25,890**
Gosod paneli solar a gwresogyddion effeithlon yn y Capel/hwb cymunedol.

*"Mae'r Gronfa Ffyniant Cyffredin wedi ein galluogi ni yn Eglwys Bedyddwyr Tywyn i osod paneli solar gyda batris storio 40kW. Hefyd, rydyn ni wedi gosod system wresogi arbenigol mewn rhan o'r adeilad sydd wedi'i ddynodi'n fan cynnes ac wedi croesawu pobl i ddefnyddio'r fan honno fel rhan o estyn allan yr Hwb Cymunedol."*

**Clwb Rygbi Bro Ffestiniog**
**£65,035**
Gosod paneli solar, ffenestri a boiler newydd a thrwsio pileri'r fynedfa.

*"Mae'r Clwb wedi cael budd o dderbyn grant wedi cael effaith anhygoel ar ein biliau trydan, ac ar gynhesrwydd y clwb. Mae ceisio cael y clwb yn sero net yn golygu ein bod yn gallu cymryd rhan yn yr agenda newid hinsawdd."*






**Fforwm Pobl Hŷn De Gwynedd, Tywyn**
**£3,040**
Cynnal cyfres o weithgareddau ynghyd â phrynu offer newydd i'r fforwm.

*"Mae'r grant wedi ein galluogi i ail-sefydlu sylfaen gadarn o gyfarfodydd rheolaidd, sy'n cael eu cefnogi'n dda gan y gymuned. Yn yr un modd, bydd yr offer ychwanegol sydd wedi'i gaffael ag arian y grant yn arwain at welliant syfrdanol yn ein rhaglen ddigwyddiadau gyda siaradwyr allanol, a byddant yn arbennig o ddefnyddiol mewn sesiynau rhyngweithiol. Bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth enfawr gyda thymor 2025 yn nesáu."*

**Sied Egryn, Llanegryn**
**£27,644**
Prynu deunyddiau i wella ac ymestyn Sied Egryn gyda gwirfoddolwyr yn cwblhau'r gwaith.

*"Mae'r grant gan Mantell Gwynedd ar gyfer ein prosiect wedi hwyluso'r broses o adeiladu gofod cymunedol newydd drwy ymdrech gwbl wirfoddol. Mae'r cyfle hwn wedi creu nod cyffredin – ac ymdeimlad o berthyn yn y gymuned. Bydd y gweithdy a'r gofod dan do y tu allan yn creu'r cyfle i gynnal gweithgareddau cymunedol am flynyddoedd i ddod."*



## GWYNEDD GYFAN

**Partneriaeth Awyr Agored**
**£8,688**
Hyfforddi a chefnogi Llysgenhadon gwirfoddol i weithio gyda'r Bartneriaeth Awyr Agored i gryfhau cymunedau o fewn Gwynedd.

*"Mae'r grant Ffyniant Cyffredin wedi ein galluogi i recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn uniongyrchol efo ni, ar draws Gwynedd, i greu cyfleoedd a hybu pobl ar draws yr ardal i drio gweithgareddau awyr agored, er budd eu hiechyd a lles."*

**Ymddiriedolaeth Llwybr Llechi Eryri**
**£9,600**
Comisiynu arolwg proffesiynol ar gyfer cydymffurfio gyda safon Llwybrau Cenedlaethol.

*"Mae'r grant eisoes wedi ein harwain i gyfrannu at rai prosiectau i wella mynediad ar hyd y Llwybr, ac i symud ymlaen â'n prosiect bydd byrddau gwybodaeth yn cael eu gosod yn yr Haf."*

### BETH YW CRONFA SECTOR WIRFODDOL MANTELL GWYNEDD?

£1.5M

Mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi darparu £2.6 biliwn o gyllid ar draws y DU ac yn dod i ben fis Mawrth 2025. Dyrannwyd £24.4 miliwn i Wynedd gyda £4.2 miliwn o'r dyraniad wedi ei warchod ar gyfer codi lefelau rhifedd ymhlith oedolion.

Bu Mantell Gwynedd yn ffodus iawn o dderbyn **£1.5m** ar gyfer sefydlu a gweinyddu Cronfa Sector Wirfoddol er budd mudiadau trydydd sector yng Ngwynedd.

Penodwyd Swyddog Grantiau Cronfa Sector Wirfoddol Mantell Gwynedd ym mis Awst 2023 ac agorwyd y Gronfa i geisiadau ym mis Medi 2023. Derbyniwyd 88 o geisiadau gwerth £5.8m.

Hysbyswyd y 36 mudiad llwyddiannus yn ystod Tachwedd 2023 gydag amserlen dynn i ddod â gwariant i ben erbyn Rhagfyr 2024.

# Cynlluniau i'r Dyfodol

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

- Byddwn yn parhau i weithredu yn unol â gofynion y Cytundeb Partneriaeth, sef ein cytundeb gyda Llywodraeth Cymru. Mae Mantell Gwynedd yn un o aelodau o Bartneriaeth Cefnogaeth Trydydd Sector Cymru, sef rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector yng Nghymru sydd â'r nod o alluogi'r sector a gwirfoddolwyr i gyfrannu'n llawn at lesiant unigolion a chymunedau, yn awr ac yn y dyfodol.
- Mae'r gwaith Partneriaeth sydd wedi digwydd rhwng Cyngor Gwynedd a Mantell Gwynedd ers 23-24 er mwyn hwyluso arian Cronfa Ffyniant Gyffredin a sefydlu Cronfa Sector Wirfoddol wedi bod yn allweddol bwysig. Erbyn hyn, gyda phenodiadau newydd i uwch swyddi yn y Cyngor, mae'r cydweithio wedi ymestyn yn sylweddol a chanlyniad hyn yw prosiectau newydd sydd yn galluogi cydweithio gyda'r Cyngor er lles trigolion Gwynedd.
- Trwy ein prosiect Social Value Cymru, byddwn yn parhau i hyrwyddo'r gwaith o fesur gwerth cymdeithasol. Trwy'r gwaith hwn rydym yn gallu dangos sut yr ydym fel sector yn datgloi potensial Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ogystal, mae y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) wedi rhoi cyfrifoldebau newydd ar gyrff cyhoeddus. Bydd gofyn i gyrff cyhoeddus gyflawni dyletswyddau rheoli contractau er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i ganlyniadau cymdeithasol cyfrifol trwy gadwyni cyflenwi. Mae hwn yn gam allweddol wrth i waith Social Value Cymru ddatblygu.
- Byddwn yn ceisio ymestyn ein gwaith Presgripsiwn Cymdeithasol er mwyn sicrhau bod mudiadau'r trydydd sector yn cael y cyfle i chwarae rhan flaenllaw mewn darparu cefnogaeth i unigolion sydd heb anghenion clinigol. Gobeithiwn uchafu potensial mudiadau'r trydydd sector i gyfrannu i'r agenda llesiant wrth wneud hyn, a thrwy hynny, yn gwireddu potensial Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sydd yn rhoi'r trydydd sector wrth galon darparu a chynllunio gwasanaethau. Byddwn yn parhau i fesur gwerth cymdeithasol prosiect Presgripsiwn Cymdeithasol Arfon er mwyn darparu tystiolaeth o'r angen am wasanaethau trydydd sector ac yn parhau i chwilio am gyfleodd ariannol i ehangu'r prosiect presennol.
- Byddwn yn parhau i edrych ar ffyrdd ymarferol o gefnogi'r trydydd sector i gydymffurfio gyda safonau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a byddwn yn manteisio ar bob cyfle posibl i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg yn y trydydd sector, yn enwedig yn y maes Gwirfoddoli gan adeiladu ar y gwaith da mae Mantell Gwynedd eisoes wedi arwain arno.
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â'r agenda newid hinsawdd a hyrwyddo ymarfer da o fewn y sector.
- Wrth i'r wlad wynebu heriau economaidd aruthrol byddwn yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn eu cynorthwyo i fynd i'r afael â'r creisis costau byw.




# Crynodeb Ariannol

**Sut mae Mantell Gwynedd yn cael ei ariannu**


Pob blwyddyn mae Mantell Gwynedd yn llwyddo i ddenu arian o nifer o amrywiol ffynonellau e.e. Cyrff y Llywodraeth, Ymddiriedolaethau Elusennol a Chronfeydd Loteri.

Cyfanswm Incwm yn ystod 2024/25
**£1,440,073**

Cyfanswm Gwariant yn ystod 2024/25
**£1,339,229**




**CYMHARIAETH YNG NGWARIANT MANTELL GWYNEDD YN YSTOD 2023/24 a 2024/25**




*Cysylltwch â Mantell Gwynedd am gopi o Gyfrifon Ariannol llawn am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2025*

# Bwrdd Rheoli 2024/2025

**SWYDDOGION**
**Cadeirydd: Trystan Pritchard**
Prif Weithredwr Canolfannau Byw'n Iach
**Is-Gadeirydd: Meinir Evans**
Prif Swyddog Canolfan Felin Fach
**Trysorydd: Elwen Roberts**
Menter Gymunedol Y Llew Gwyn
**Is-Drysorydd: Annie Williams**
Cyn Bennaeth Coleg Harlech WEA (wedi ymddeol)

**AELODAU**
**Y Tad Deiniol**
"Yn Ein Blaenau"
**Betty Williams**
Aelod Seneddol (wedi ymddeol)
**Paul John Rowlinson**
Cynrychiolydd Cyngor Gwynedd

# Staff 2024/2025

**TÎM RHEOLI**
**Bethan Russell Williams**
Prif Swyddog
**Ceren Williams**
Dirprwy Brif Swyddog a Phennaeth Tîm Cyllid a Gweinyddu

**DATBLYGU A GWASANAETHAU**
**Eleri Lloyd Roberts**
Rheolwr Gwerth Cymdeithasol
**Gareth Jâms**
Swyddog Datblygu a Mesur Gwerth
**Mathew Lewis**
Swyddog Mesur Gwerth Cymdeithasol
**Katie Jones**
Swyddog Datblygu a Mesur Gwerth Cymdeithasol
**Carys Williams**
Swyddog Datblygu a Grantiau a Chynorthwy-ydd Cyllid
**Carina Roberts**
Swyddog Grantiau

**IECHYD A LLESIANT**
**Sioned Llywelyn Roberts**
Hwylusydd Iechyd a Llesiant
**Rhian Griffiths**
Swyddog Cyswllt Cymunedol Arfon

**CYLLID A GWEINYDDOL**
**Tracy Lynne Rotheram**
Swyddog Gweinyddol

**CANOLFAN GWIRFODDOLI GWYNEDD**
**Carwyn Humphreys**
Cydlynydd Canolfan Gwirfoddoli
**Jordan Thomas**
Swyddog Gafael Llaw i Wirfoddoli
**Beca Gruffydd**
Swyddog Prosiect Ffrindia' Newydd